BREXIT SY'N TORRI'N GWBL RYDD O EWROP YN ALLWEDDOL I NEWID PRYDAIN AM BYTH

Ein blaenoriaeth yw Gadael yr Undeb Ewropeaidd a sicrhau'r Brexit y pleidleisiodd 17.4m amdano yn 2016. Mae gweithredu ar y mandad poblogaidd mwyaf yn hanes Prydain yn hollbwysig i adfer ffyrdd yn ein democratiaeth. Pa fath o gymdeithas ddemocrataidd ydym ni'n byw ynddi, os gall nifer fach o Aelodau Seneddol fynd yn groes i ewyllys y bobl?

Y dechrau'n unig yw gadael yr UE annemocrataidd. Hwn fydd y cam cyntaf mewn chwyldro gwleidyddol. Rydym yn awyddus i weld newidiadau democrataidd sylfaenol i drwsio ein system wleidyddol ddiffygiol a sicrhau bod y Senedd yn gwasanaethu'r Bobl.

Gall Brexit sy'n torri'n rhydd o Ewrop hefyd lywio dyfodol ein heconomi a'n cymdeithas. Bydd yn rhoi rhyddid i ni lunio ein dyfodol trwy gymryd rheolaeth yn syth o'n deddfau, ein ffiniau, ein harian, ein parth pysgota a'n gwasanaeth amddiffyn ein hunain.

Rydym eisiau canslo HS2, arbed 50% o gyllideb cymorth tramor ac arbed £13bn arall y flwyddyn mewn taliadau i'r UE. Gall yr arian hwnnw fod yn rhan o ddifidend Brexit i fuddsoddi biliynau yn Rhanbarthau Prydain, torri costau byw, ac adeiladu gwell dyfodol i filiynau o'n pobl.

Mae'r hen brif bleidiau wedi gwneud 'maniffesto' yn air budr. Mae pawb yn gwybod mai maniffesto yw set o addewidion amwys nad oes gan eu hawduron unrhyw fwriad o'u cadw. Yn groes i hyn, mae ein Contract gyda'r Bobl yn set wedi'i thargedu o addewidion y gellir eu cyflawni. Nid ydym yn ceisio cael ein hethol fel llywodraeth. Rydym yn ceisio sicrhau'r Brexit a addawyd gennym dair blynedd a hanner yn ôl.

Gyda Brexit sy'n torri'n gwbl rydd o Ewrop, gallwn ddechrau newid Prydain am byth o'r diwrnod cyntaf. Nid fydd unrhyw 'gyfnod pontio' estynedig, dim mwy o flynyddoedd o ymgecru â Brwsel, dim mwy o gael ein clymu gan sefydliadau gwleidyddol rheolaethol yr UE. Byddwn yn rhydd i ddechrau adeiladu ein dyfodol yn syth, newid gwleidyddiaeth a Phrydain am byth. Ac mae hon yn addewid.

CHWYLDRO GWLEIDYDDOL

Mae'r ffordd y mae'r Sefydliad Gwleidyddol wedi cynllwynio i rwystro democratiaeth ynglŷn â Brexit wedi tynnu sylw at yr angen am ddiwygio gwleidyddol sylfaenol. Gall y Blaid Brexit sicrhau newid democrataidd gwirioneddol oherwydd nad ydym yn rhan o status quo San Steffan. Mae'n amser cael trafodaeth ar gyfansoddiad ysgrifenedig. Rydym yn addo:

Diwygio'r system bleidleisio i'w gwneud yn fwy cynrychioliadol.

Diddymu Tŷ'r Arglwyddi sydd heb ei ethol.

Gwneud AS sy'n newid plaid yn agored i broses adalw.

Newid y system pleidleisio drwy'r post i fynd i'r afael â thwyll a chamddefnydd.

Diwygio'r Goruchaf Lys – rhaid i farnwyr sy'n chwarae rhan mewn gwleidyddiaeth fod yn destun craffu gwleidyddol. Sicrhau cydbwysedd gwleidyddol trwy ehangu cyfranogiad yn y Comisiwn Dethol neu gynnal cyfweliadau gan Bwyllgor Seneddol.

Gwneud y Gwasanaeth Sifil yn fwy atebol i'r cyhoedd – byddai'n ofynnol i weision sifil lofnodi llw i weithredu'n wleidyddol-niwtral.

Cael gwared yn raddol ar ffi drwydded y BBC.

Gorfodi Prifysgolion i gynnwys dyletswydd i ddiogelu rhyddid barn gyfreithiol.
Cyflwyno Cynlluniau Dinasyddion i ganiatáu i bobl alw refferendwm, yn amodol ar drothwy 5m o lofnodion pleidleiswyr cofrestredig a chyfyngiadau amser ar ail-bleidleisiau.

RYDYM YN ADDO CYFLWYNO CYNLLUNIAU DINASYDDION I GANIATÁU I BOBL ALW REFFERENDWM

DIFIDEND BREXIT

Mae Plaid Brexit yn cefnogi polisïau sydd wedi'u hanelu at adfywio rhanbarthol, gan gynorthwyo sectorau allweddol o'r economi a buddsoddiadau wedi'u targedu at bobl ifanc, y Stryd Fawr a theuluoedd. Rydym yn addo:

Codi £200bn trwy:

- Gael gwared ar HS2
- Cadw'r cyfraniad blynyddol o £13bn a wneir i'r UE
- Adennill ein £7bn gan EIB
- Ailgyfeirio 50% o'r gyllideb cymorth tramor (£40bn dros bum mlynedd).

Buddsoddi o leiaf £50bn mewn cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd lleol yn ein rhanbarthau sydd wedi dioddef o ddiffyg buddsoddi mewn datblygiadau.

Buddsoddi mewn isadeiledd digidol: gweithio mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth i gynnig bad eang domestig lefel sylfaenol am ddim mewn rhanbarthau difreintiedig a Wi-Fi am ddim ar yr holl drafnidiaeth gyhoeddus.

Buddsoddi yn ein Stryd Fawr: ochr yn ochr â'n newidiadau i'r Dreth Gorfforaeth, byddwn yn cyfnewid cyfraddau busnes am system symlach i helpu manwerthwyr bach y Stryd Fawr a gweithredwyr hamdden y tu allan i'r M25, gydag unrhyw ostyngiadau'n cael eu hariannu drwy dreth gwerthiant ar-lein.

Buddsoddi mewn pobl ifanc: cael gwared ar fenthyciadau myfyrwyr. Bydd hynny'n gwella'r gyfradd adfer dyledion a chyflwyno cynllun prentisiaeth ymarferol newydd.

Cael gwared ar Dreth Etifeddiaeth (IHT). Mae'r dreth amhoblogaidd yma'n sicrhau llai nag 1% o gyfanswm refeniw treth. Mae'n 'drethu dwbl' ar asedau oes, a hynny ar adeg o drallod i'r teulu.

RYDYM YN ADDO CAEL GWARED AR DRETH ETIFEDDIAETH

BUDDSODDI YN Y DYFODOL

Mae Plaid Brexit o blaid buddsoddi met**LLEIHAU COSTAU BYW**

Mae Brexit sy'n torri'n gwbl rydd o Ewrop yn gyfle i leihau costau byw i deuluoedd sy'n gweithio. Mae effaith polisïau'r UE ar brisiau ynni'n effeithio ar swyddi ac yn cosbi'r tlotaf mewn cymdeithas, tra bod Undeb Dollau'r UE yn ein hatal rhag gostwng tariffau ar fewnforion o wledydd nad ydynt yn yr UE. Rydym yn addo:

Torri TAW ar danwydd domestig: mae rheolau'r UE yn ein hatal rhag gostwng ein cyfraddau TAW. Bydd cyfradd TAW sero ar danwydd domestig er mwyn lleihau biliau ynni – gan arbed £65 ar gyfartaledd i bob cartref.

Lleihau tariffau mewnforio: daw 20% o eitemau bwyd y DU o'r tu allan i'r UE. Bydd Brexit sy'n torri'n gwbl rydd o Ewrop yn caniatáu i ni leihau tariffau i sero ar fwydydd, esgidiau a dillad penodol.

RYDYM YN ADDO TORRI TAW AR DANWYDD DOMESTIG ER MWYN LLEIHAU BILIAU YNNI

HWB SYLWEDDOL I'R ECONOMI

Rydym yn awyddus i ddenu buddsoddiad a swyddi gyda chyfres o gynlluniau wedi'u targedu i yrru twf a chynyddu'r arian a gesglir gan y llywodraeth trwy dreth. Rydym yn addo:

Treth Gorfforaeth cyfradd sero am y £10,000 o enillion cyn treth: Mae un filiwn o gwmnïau - tua 66% o'r cyfanswm nifer - yn talu llai na £10,000. Mae hyn yn cynrychioli 6% yn unig o arian a gasglwyd drwy Dreth Gorfforaeth yn 2019; £3.4bn. Cyfanswm cost £5.1bn y flwyddyn.

Cynnal is-gymorthdaliadau a grantiau a dalwyd gan yr UE i fusnesau'r DU fel ffermwyr, pysgodfeydd, prifysgolion a chyrff ymchwil: ein harian ni yw hwn beth bynnag, wedi'i ailgylchu gan yr UE.

Darparu rhyddhad dros dro i brif sectorau fel y diwydiant ceir, i sicrhau Brexit llyfn.

Creu Parthau Rhydd mewn rhanbarthau penodol i annog buddsoddiad a chreu swyddi newydd.

Newid trefn reoleiddio gwasanaethau ariannol, cael gwared â'r tâp coch, cynyddu cystadleuaeth a rhoi hwb i fenthyciadau i Fentrau Bach a Chanolig.

RYDYM YN ADDO TRETH GORFFORAETH CYFRADD SERO AM Y £10,000 O ENILLION CYN TRETH, GAN ROI HWB I FILOEDD O GWMNÏAU BACH

DIOGELU FFINIAU A PHOBL PRYDAIN

Mae Brexit sy'n torri'n gwbl rydd o Ewrop yn golygu y gallwn reoli ein ffiniau a'n diogelwch cenedlaethol ein hunain, heb gael ein clymu gan bolisïau amddiffyn a mewnfudo gwahaniaethol integredig. Rydym yn addo:

Sicrhau bod y DU yn cadw ei hymrwymiad i NATO ac yn cyflawni ei hymrwymiad i wario isafswm o 2% o CDG ar amddiffyn.

Tynnu'n ôl o Undeb Amddiffyn Ewrop. Bydd hyn yn golygu ein bod yn gadael cyfarwyddeb caffael amddiffyn yr UE gan sicrhau bod gan y DU yr hawl i wneud contractau amddiffyn yn aros yn y wlad hon.

Lleihau mewnfudo anghyfreithlon ac atal y drasiedi ddynol sy'n gysylltiedig â masnachu pobl.

Lleihau mewnfudo blynyddol a mynd i'r afael â chyflogau sydd wedi aros yn yr unfan a'r bwlch sgiliau trwy gyflwyno system bwyntiau deg waeth beth fo tarddiad ethnig pobl. A chynnig croeso cynnes bob amser i rai sy'n ffoaduriaid gwirioneddol.

Cynyddu nifer yr heddlu – plismona mwy gweladwy, sicrhau ffocws ar fynd i'r afael â throseddau treisgar, lladrata a byrgleriaeth yn hytrach na gorfodi cyfyngiadau ar ryddid barn.

Targedu bygythiad delwyr cyffuriau Llinellau Sirol, gangiau a'r cynnydd mewn troseddau'n ymwneud â chyllyll.

Dileu targedau ffals a chyflwyno 'dewis' o ddedfrydau i droseddwyr ifanc, i annog proses adsefydlu.

RYDYM YN ADDO LLEIHAU MEWNFUDO BLYNYDDOL TRWY GYFLWYNO SYSTEM BWYNTIAU DEG WAETH BETH FO TARDDIAD ETHNIG POBL

BUDDSODDI YN Y GIG

Mae angen i ni ddatblygu Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol sy'n addas i'r 21ain Ganrif. Mae Plaid Brexit yn credu mewn buddsoddi'n barhaus yn y GIG, gwella rheolaeth, cynyddu nifer y staff meddygol a lleihau gwastraff. Rydym eisiau i'r GIG fod yn enghraifft o ofal rhagorol. Llywodraethau Llafur Blair a Brown a fu'n gyfrifol am y ddyled o filiynau o bunnoedd sy'n wynebu'r GIG, trwy eu Cynlluniau Cyllid Preifat.

Rhaid i'r GIG aros yn wasanaeth cynhwysfawr sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sydd am ddim i ddefnyddwyr. Ni ddylai eich cod post benderfynu ar eich gofal neu iechyd.

Ni ddylai'r GIG gael ei breifateiddio; byddwn yn sicrhau bod cynlluniau preifat presennol sydd wedi methu, yn dod yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus.

Rydym yn cefnogi buddsoddiad mewn ymchwil a datblygiad meddygol a byddwn yn atal y trethdalwr rhag cael ei dwyllo gan gwmnïau fferyllol.

Dileu'r holl dargedau sydd wedi'u gorfodi gan y llywodraeth ar ysbytai sy'n amharu ar flaenoriaethau clinigol.

Ail-agor y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth i drefn recriwtio heb ofynion gradd, ochr yn ochr â chymhwyster nyrsio newydd mewn gofal cymdeithasol.

Cyflwyno meddygfeydd 24 awr i leihau'r straen ar adrannau argyfwng.

Cynnal trafodaeth genedlaethol ar ein GIG, cynnwys y cyhoedd ochr yn ochr ag AS, meddygon ac arbenigwyr. Dylem drafod neilltuo arian cyllideb y GIG a'r refeniw treth a delir amdani.

NI DDYLAI'R GIG GAEL EI BREIFATEIDDIO. BYDDWN YN SICRHAU BOD CYNLLUNIAU PREIFAT PRESENNOL SYDD WEDI METHU, YN DOD YN ÔL I BERCHNOGAETH GYHOEDDUS

BUDDSODDI MEWN ADDYSG

Mae dyfodol Prydain yn dibynnu ar wella ein haddysg i bobl ifanc a rhoi rôl gadarnhaol i gyflogwyr o ran hyfforddiant a phrentisiaethau. Rydym yn addo:

Ehangu ymhellach y dewis i rieni – mae academïau ac ysgolion am ddim wedi gwella canlyniadau.

Dileu llog ar fenthyciadau myfyrwyr.

Dileu'r targed i annog 50% o bobl ifanc i fynd ymlaen i Addysg Uwch.

Cael gwared ar yr Ardoll Prentisiaethau beichus – mae prentisiaethau wedi methu. Gwella cymhelliant treth i gyflogwyr dderbyn prentisiaid gwirioneddol.

RYDYM YN ADDO DILEU'R HOLL LOG AR FENTHYCIADAU MYFYRWYR

DIWYGIO CREDYD CYNHWYSOL

Mae darparu rhwyd diogelwch i'r rhai sydd angen cymorth yn nodwedd amlwg o gymdeithas wâr. Nid yw Credyd Cynhwysol wedi cyflawni'r hyn a addawyd ac mae angen edrych eto arno. Rydym yn addo: Cynorthwyo'r rhai sydd wedi talu i system gyda phrosesau talu cyflymach (pum wythnos ar y mwyaf) a pharhau i ddileu twyll.

Cynnal adolygiad 12 mis o'r system a chyflwyno newidiadau o fewn dwy flynedd

Adolygu sefyllfa merched sydd ar eu colled yn sgil y cynnydd diweddar yn oedran pensiwn gwladol.

Ehangu'r defnydd o gronfeydd segur i gefnogi cymdeithas wâr.

AILADEILADU'R SYSTEM DAI

Mae angen i ni symleiddio'r prosesau cynllunio a datblygu i annog datblygwyr bach a chanolig eu maint, gan gyflymu datblygiadau i gynyddu'r cyflenwad tai. Rydym yn addo:

Symleiddio caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd maes llwyd.

Newid y model ariannu i'w gwneud yn haws i gynghorau fenthyca gan lywodraeth ganol i adeiladu tai cyngor.

Cyflymu grantiau isadeiledd i roi cychwyn ar gynlluniau hyfywedd ymylol.

Newid y broses ar gyfer caniatâd cynllunio amlinellol.

Cyflwyno mwy o hyblygrwydd o ran maint a math unedau fel rhan o ddatblygiad.

Caniatáu mwy o hyblygrwydd yn nifer y tai fforddiadwy o fewn cynllun datblygu.

WWW.THEBREXITPARTY.ORG

Hyrwyddwyd gan Paul Oakden ar ran Plaid Brexit, 83 Victoria Street, Llundain, SW1H 0HW.

Argraffwyd gan Color Company, 27a Poland Street, Llundain, W1F 8QW